



**Ombwdsmon
Ombudsman**
Cymru • Wales

Ymateb i ymgynghoriad: Ymchwiliad i archwilio cyflwr anniogel tai cymdeithasol

Enw Sefydliad: (Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai) Senedd
Cymru

Cyflwynwyd: 12/02/2026

Fel Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (OGCC), mae gennym dri phrif nod.

- Rydym yn ymchwilio i gwynion am wasanaethau cyhoeddus.
- Rydym yn ystyried cwynion am gynghorwyr sy'n torri'r Cod Ymddygiad.
- Rydym yn ysgogi gwelliant systematig mewn gwasanaethau cyhoeddus a safonau ymddygiad mewn llywodraeth leol yng Nghymru.

Rydym yn annibynnol, yn ddiduedd, yn deg ac yn agored i bawb sydd ein hangen.

Mae ein gwasanaeth yn rhad ac am ddim.

Trosolwg

Rydym yn croesawu'r ymchwiliad hwn.

Credwn fod pawb yn haeddu byw mewn cartref cynnes a chroesawgar. Derbyniwn fod landlordiaid cymdeithasol yng Nghymru yn delio â miloedd o gysylltiadau a cheisiadau gwasanaeth bob blwyddyn. Ar y cyfan, mae'r ceisiadau hyn yn cael eu datrys yn foddhaol.

Ac eto yn rhy aml, mae tenantiaid mewn tai cymdeithasol yn wynebu problemau gyda diffyg atgyweirio, lleithder a llwydni - problemau a all waethygu pan nad yw landlordiaid yn gweithredu'n brydlon neu'n cyfathrebu'n glir. Yn lle hynny, daw'r hyn a ddylai fod yn lloches ddiogel yn ffynhonnell straen a niwed parhaus.

Codwn y pwyntiau allweddol canlynol yn ein hymateb:

- Mae tueddiadau yn ein cwynion newydd yn awgrymu bod materion sy'n ymwneud â lleithder a llwydni neu waith atgyweirio a chynnal a chadw naill ai'n dod yn fwy cyffredin yn y sector tai cymdeithasol, neu fod tenantiaid yn fwy parod ac yn fwy abl i fynd ar drywydd cwynion amdanynt.
- Roeddem yn llawer mwy tebygol o ganfod methiannau gan landlordiaid cymdeithasol mewn perthynas â materion yn ymwneud ag atgyweiriadau a chynnal a chadw neu leithder a llwydni, nag mewn perthynas â materion eraill sy'n effeithio ar denantiaid mewn tai cymdeithasol.
- Mae ein gwaith achos yn tynnu sylw at themâu parhaus:
 - oedi, sydd ar adegau yn sylweddol iawn, wrth fynd i'r afael ag atgyweiriadau a pheryglon brys
 - dim digon o ddiweddariadau ac eglurder ar y cynllun ar gyfer gwaith angenrheidiol
 - dim digon o sylw i anghenion tenantiaid sy'n agored i niwed

- methu â dilyn polisïau a gweithdrefnau sefydliadau
- methiannau yn y broses gwyno, gan gynnwys methu â chofnodi cwynion yn gywir neu fethu â chyhoeddi ymateb i gŵyn.
- Rydym wedi nodi nifer o wersi yr ydym wedi bod yn eu cyfleu i'r sector drwy ein hargymhellion a'n hadroddiadau budd y cyhoedd:
 - gweithredu mewn modd amserol
 - trin ceisiadau fel un broblem, nid ar wahân
 - dilyn polisïau a chanllawiau perthnasol wrth ddelio â cheisiadau.
- Yn ein rôl fel Awdurdod Safonau Cwynion, rydym am gefnogi sefydliadau yng Nghymru i wella prosesau ymdrin â chwynion. Ar hyn o bryd, mae pob cyngor lleol a'r mwyafrif o gymdeithasau tai yn gweithredu o dan ein Polisi Cwynion Enghreifftiol, ac rydym yn ymgysylltu'n weithredol â'r sefydliadau hyn i sbarduno arferion gwell wrth ymdrin â chwynion.
- Er hynny, rydym hefyd yn ystyried bwrw ymlaen ag ymchwiliadau ar ei liwt ei hun i sut mae darparwyr tai cymdeithasol yn ymateb i adroddiadau am ddiffyg atgyweirio, yn enwedig lleithder a llwydni, gan denantiaid sy'n agored i niwed.
- Rydym yn cefnogi'r rheol SATC diweddaredig. Fodd bynnag, rydym am danlinellu bod Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 eisoes yn gosod rhwymedigaethau ar landlordiaid ynghylch cyflwr y cartrefi y maent yn eu gosod; a dylai darparwyr tai cymdeithasol fod yn ymateb eisoes i adroddiadau am ddiffyg atgyweirio, lleithder a llwydni yn unol â'u polisïau a'u canllawiau mewnol.

Cwestiynau'r ymchwiliad

Graddfa'r diffyg atgyweirio peryglus mewn tai cymdeithasol yng Nghymru, lefel y risg iechyd y mae tenantiaid yn ei wynebu, a sut mae cyflwr tai ac ymatebion i ddiffyg atgyweirio yn cael eu monitro.

Pa mor effeithiol y mae landlordiaid cymdeithasol yn ymateb ar hyn o bryd i adroddiadau am ddiffyg atgyweirio peryglus, yn enwedig problemau gyda lleithder a llwydni.

Er na allwn wneud sylwadau ar raddfa'r diffyg atgyweirio mewn tai cymdeithasol yng Nghymru, mae nifer o ddarparwyr tai cymdeithasol wedi ymateb i adroddiadau am leithder a llwydni, gan gynnwys gan denantiaid sy'n agored i niwed. Rydym wedi cyhoeddi adroddiad thematig yn ogystal â sawl adroddiad er budd y cyhoedd sy'n tynnu sylw at y pryderon hyn.

Tueddiadau yn ein gwaith achos

Yn 2024-25, cawsom 323 o gwynion newydd am atgyweiriadau a chynnal a chadw neu broblemau lleithder a llwydni, yn ymwneud â gwasanaethau landlordiaid cymdeithasol yng Nghymru. Mae hyn yn cymharu â 297 o gwynion am atgyweiriadau a chynnal a chadw yn 2023-24 (dim ond tua diwedd y flwyddyn ariannol honno y gwnaethom gyflwyno categori ar wahân ar gyfer problemau lleithder a llwydni). Rhwng mis Ebrill a mis Rhagfyr 2025, roedd 259 o gwynion yn ymwneud â'r pynciau hyn.

Bellach, tai yw ein hail bwnc y cwynir amdano fwyaf ac mae bron i hanner y cwynion tai newydd yn ymwneud â lleithder a llwydni neu waith atgyweirio a chynnal a chadw.

Ar y cyfan, mae tueddiadau yn ein cwynion newydd yn awgrymu bod y materion hyn naill ai'n dod yn fwy cyffredin yn y sector tai cymdeithasol, neu fod tenantiaid yn fwy parod ac yn fwy abl i fynd ar drywydd cwynion amdanynt.

Lle byddwn yn canfod bod sefydliad wedi gwneud camgymeriad, rydym yn ymyrryd i sicrhau ei fod yn cywiro pethau. Gall hyn ddigwydd heb ymchwiliad

llawn drwy Ddatrysiad Cynnar neu yn dilyn ymchwiliad drwy gadarnhau cwyn neu awgrymu setliad rhwng y corff a'r achwynydd.

Yn gyffredinol, gwelwn fod y rhan fwyaf o gwynion tai yr ydym yn ymyrryd ynddynt yn ymwneud â lleithder a llwydni neu waith atgyweirio a chynnal a chadw

- Yn 2024-25, roedd ein cyfradd ymyrraeth mewn cwynion tai cyffredinol yn 16%. Fodd bynnag, gwnaethom ymyrryd mewn bron i 1 o bob 4 cwyn am waith atgyweirio a chynnal a chadw neu broblemau lleithder a llwydni. Roedd cwynion am leithder a llwydni yn dangos cyfradd ymyrraeth arbennig o uchel – 41%.
- Yn 2025-26 (Ebrill i Ragfyr), roedd ein hymyrraeth mewn cwynion tai cyffredinol yn 13%. Fodd bynnag, gwelodd ein cwynion am leithder a llwydni ac atgyweiriadau gyfraddau ymyrraeth o 33% a 49% yn y drefn honno.

I grynhoi, roeddem yn llawer mwy tebygol o ganfod methiannau gan landlordiaid cymdeithasol mewn perthynas â materion yn ymwneud ag atgyweiriadau a chynnal a chadw neu leithder a llwydni, nag mewn perthynas â materion eraill sy'n effeithio ar denantiaid mewn tai cymdeithasol.

Themâu yn ein gwaith achos

Ym mis Tachwedd 2024, cyhoeddom adroddiad thematig, 'Byw mewn Cyflyrau Difrifol'. Casglodd yr adroddiad enghreifftiau o gwynion tai a gadarnhawyd gennym yn ystod 2023-24 a oedd yn ymwneud â phroblemau atgyweirio a chynnal a chadw. Yn rhy aml o lawer, amlygodd yr achosion hyn y canlynol:

- roedd yn rhaid i denantiaid godi cwynion i weld gwaith adferol yn cael ei wneud, a gwelsom nad oedd darparwyr gwasanaeth yn trin ceisiadau gwasanaeth niferus fel cwynion
- roedd rhaid i denantiaid fynd ar ôl darparwyr gwasanaeth dro ar ôl tro er mwyn cychwyn cwyn
- roedd landlordiaid yn cynnal archwiliadau cyn gosod o ansawdd amheus

- nid oedd landlordiaid yn ddigon ystyriol o, neu'n ymatebol i, ddeiliaid agored i niwed
- roedd yn ymddangos bod oedi cyn ymateb i gwynion tra bod y landlord yn gwneud rhywfaint o waith yn y cyfamser (efallai er mwyn i'r ymateb adlewyrchu'n dda ar y landlord); neu fod y landlord yn methu â chofnodi cwyn yn briodol.

Yn anffodus, rydym yn gweld bod llawer o'r problemau hyn yn parhau yn ein gwaith achos. Rydym yn cynnwys yn yr Atodiad enghreifftiau o achosion pellach sy'n tynnu sylw at themâu parhaus:

- oedi, sydd ar adegau yn sylweddol iawn, wrth fynd i'r afael ag atgyweiriadau a pheryglon brys
- dim digon o ddiweddariadau ac eglurder ar y cynllun ar gyfer gwaith angenrheidiol
- methiannau yn y broses gwyno, gan gynnwys methu â chofnodi cwynion yn gywir neu fethu â chyhoeddi ymateb i gŵyn.

Yn olaf, ym mis Tachwedd a mis Rhagfyr 2025, cyhoeddom adroddiadau ar ymchwiliadau Budd y Cyhoedd yn erbyn Cyngor Caerdydd, Cyngor Sir y Fflint a dau adroddiad ymchwiliad Budd y Cyhoedd yn erbyn Trivallis (Cymdeithas Dai).

- [Trivallis \(202405250\)](#)
- [Trivallis \(202402960\)](#)
- [Cyngor Sir y Fflint \(202401983\)](#)
- [Cyngor Caerdydd \(202404828\)](#)

Canfu'r ymchwiliadau hyn oedi eto wrth ymateb i adroddiadau am ddiffyg atgyweirio a/neu leithder a llwydni, ac roeddent yn cynnwys tenantiaid a oedd yn agored i niwed a'u teuluoedd. Gwnaethant hefyd dynnu sylw at themâu parhaus sy'n codi dro ar ôl tro ac sy'n rhoi cyfleoedd clir ar gyfer gwelliannau ar draws y sector tai:

- Gweithredu mewn modd amserol

Mae hyn yn hanfodol pan fydd tenantiaid yn rhoi gwybod am leithder, llwydni neu gais am atgyweiriad. Mae gweithredu yn brydlon nid yn unig yn atal problemau rhag dod yn fwy cymhleth neu'n fwy costus i'w datrys ond hefyd yn helpu i gynnal ymddiriedaeth bod pryderon yn cael eu cymryd o ddifrif.

Os nad oes modd gweithredu'n brydlon am reswm dilys, dylai'r cyfathrebu fod yn glir a dylai gynnwys dyddiad arfaethedig ar gyfer archwilio neu atgyweirio. Mae cyfathrebu cynnar a thryloyw yn helpu i reoli disgwyliadau ac yn lleihau pryder, yn enwedig i denantiaid mewn sefyllfaoedd agored i niwed.

- Trin ceisiadau fel un broblem, nid ar wahân

Fel y gwelwyd yn achos 202401983, gall trin ceisiadau atgyweirio ar eu pen eu hunain adael problemau sylfaenol heb eu datrys. Gall methu â chysylltu adroddiadau cysylltiedig olygu colli cyfleoedd i nodi problemau ehangach, fel llwydni eang neu ollyngiadau dŵr parhaus sy'n effeithio ar sawl rhan o eiddo.

Er nad yw problemau bob amser yn gysylltiedig, mae gofyn a allent fod yn gysylltiedig yn helpu i sicrhau bod achosion sylfaenol yn cael eu nodi a'u datrys, gan leihau'r risg y bydd y diffyg atgyweirio yn gwaethygu dros amser.

- Dilyn polisïau a chanllawiau perthnasol wrth ddelio â cheisiadau

Fel y dangoswyd yn y ddau achos Trivallis, mae dilyn polisïau a chanllawiau perthnasol yn hanfodol i sicrhau bod ceisiadau'n cael eu trin yn gyson a'u datrys yn briodol.

Ein gwaith safonau cwynion

Yn ein rôl fel Awdurdod Safonau Cwynion, rydym yn cefnogi darparwyr gwasanaethau yng Nghymru i wella prosesau trin cwynion.

Ers 2019, mae gennym y pŵer i osod y polisi a'r canllawiau enghreifftiol statudol ar ymdrin â chwynion ar gyfer darparwyr gwasanaethau yn ein

hawdurdodaeth yn ogystal â monitro sut mae'r sefydliadau hyn yn ymdrin â chwynion. Mae'r fframwaith hwn bellach yn ymestyn i bob cyngor lleol, bwrdd ieched, a'r rhan fwyaf o gymdeithasau tai.

Rydym bellach wedi darparu diffiniad o beth sy'n cyfrif fel cwyn ac yn nodi strwythur disgwylidig y broses gwyno yn ogystal ag amserlenni y dylid glynu wrthynt (i landlordiaid cymdeithasol yng Nghymru, byddai hyn yn golygu cydnabod cwyn o fewn 5 diwrnod gwaith, ac ymateb disgwylidig yn y rhan fwyaf o achosion o fewn 20 diwrnod gwaith). Rydym hefyd yn darparu hyfforddiant ar ymdrin â chwynion yn dda.

Ers lansio ein polisi a'n canllawiau cwynion enghreifftiol, rydym wedi gweld gwell arferion a mwy o gysondeb wrth gofnodi cwynion a mwy o unfurfiaeth o ran dealltwriaeth o beth sy'n cyfrif fel cwyn. Byddwn yn parhau i ymgysylltu'n weithredol â landlordiaid cymdeithasol yng Nghymru i hyrwyddo gwell arferion o ran ymdrin â chwynion. Erbyn diwedd mis Mehefin, bydd pob cymdeithas tai yng Nghymru yn gweithredu o dan y safonau cwynion hyn. Mae awdurdodau lleol eisoes yn gwneud hynny.

Ymchwiliadau ar ei liwt ei hunain

Ar y cyfan, mae tueddiadau ein gwaith achos a chyffredinolrwydd y themâu sy'n codi dro ar ôl tro yn ein gwaith achos yn ein harwain i amau y gallai'r materion hyn effeithio ar denantiaid darparwyr tai cymdeithasol eraill.

Mae [Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus \(Cymru\) 2019](#) ("Deddf 2019") yn rhoi'r hawl i ni ymgymryd ag ymchwiliadau 'ar ei liwt ei hun', nad oes angen iddynt gael eu hysgogi gan achwynydd unigol.

Ym mis Tachwedd, lansiom ymgynghoriad ar ymchwiliad ar ei liwt ei hun arfaethedig i ganfod a yw landlordiaid cymdeithasol yng Nghymru yn ymateb yn briodol i adroddiadau a phryderon sy'n ymwneud â diffyg atgyweirio, gyda ffocws ar leithder a llwydni, gan ystyried anghenion tenantiaid sy'n agored i niwed. Daeth yr ymgynghoriad i ben ym mis Rhagfyr a derbyniwyd ymatebion gan denantiaid, darparwyr tai cymdeithasol, Llywodraeth Cymru a sefydliadau cyngor, eiriolaeth a chymorth y trydydd sector. Roedd y mwyafrif helaeth o

blaid ymchwiliad i sut mae darparwyr yn ymdrin â diffyg atgyweirio, lleithder a llwydni, a chwynion cysylltiedig.

Rydym nawr yn adolygu'r adborth a byddwn yn gwneud penderfyniad yn gynnar yn 2026 ynghylch a ddylid bwrw ymlaen â chynnig ymchwiliad ffurfiol. Yn y cyfamser, byddwn yn parhau i ddefnyddio ein gwaith achos i nodi gwersi ac annog gwelliannau ar draws y sector. Byddwn yn rhannu diweddariadau ar ein gwefan cyn gynted ag y byddant ar gael, ac rydym yn parhau i fod wedi ymrwymo i sicrhau bod cwynion tai yn cael eu cymryd o ddifrif a'u datrys yn gyflym.

Creu rheol newydd gan Lywodraeth Cymru fel rhan o Safon Ansawdd Tai Cymru sy'n ei gwneud yn ofynnol i landlordiaid cymdeithasol ymchwilio i rai peryglon a'u cywiro o fewn amserlenni penodol, gan gynnwys: y rhesymeg sy'n sail i'r dull hwn a pha mor effeithiol y mae'n debygol o fod; a'r effaith ddisgwyliedig ar denantiaid a landlordiaid.

Rydym yn cefnogi'r rheol newydd. Fodd bynnag, rydym am danlinellu bod Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 eisoes yn gosod rhwymedigaethau ar landlordiaid ynghylch cyflwr y cartrefi y maent yn eu gosod. Mae'r rhain yn cynnwys sicrhau bod yr annedd mewn cyflwr da ac yn addas i bobl fyw ynddi. Ymhellach, hyd yn oed heb y cyfrifoldebau sy'n deillio o'r SATC newydd, dylai darparwyr tai cymdeithasol fod yn ymateb i adroddiadau am ddiffyg atgyweirio, lleithder a llwydni yn unol â'u polisiau a'u canllawiau mewnol.

Rydym hefyd yn gweld yn ein gwaith achos gwynion sy'n ymwneud â'r dull o ymdrin â materion na chawsant eu nodi'n wreiddiol fel risg sylweddol ac felly na fyddent yn dod o dan y SATC newydd.

Pa gamau rhagweithiol y mae landlordiaid cymdeithasol yn eu cymryd i nodi ac unioni diffyg atgyweirio peryglus yn eu stoc tai.

Mae ffocws sylweddol wedi bod dros y blynyddoedd diwethaf ar fethiannau darparwyr tai cymdeithasol i ymateb yn briodol i adroddiadau am leithder a llwydni. Mae'n amlwg bod hwn yn parhau i fod yn faes ffocws wrth symud

ymlaen a bod gwaith yn parhau yn y sector hwn i wella'r gwasanaeth a ddarperir i denantiaid tai cymdeithasol a'r amodau y maent yn byw ynddynt. Rydym yn cydnabod bod y sector wedi ymrwymo i ddatblygiad parhaus. Fodd bynnag, fel y dangosir o'n gwaith achos, mae'n parhau i fod yn debygol y gellir dysgu gwersi pellach a rhannu arfer gorau, ar draws y sector. Mae hyn yn tynnu sylw at bwysigrwydd monitro perfformiad landlordiaid cymdeithasol yng Nghymru yn gyson a thrylwyr yn erbyn SATC.

Sut mae Llywodraeth Cymru a landlordiaid cymdeithasol yn ymgysylltu â thenantiaid ac yn eu cynnwys mewn materion sy'n ymwneud â diffyg atgyweirio peryglus.

Dim sylwadau.

Sylwadau cloi

Rydym yn croesawu'r ymchwiliad hwn ac yn ymddiried y bydd yn helpu i wella arferion o fewn y sector tai cymdeithasol yng Nghymru ac, yn y pen draw, profiadau gwasanaeth a llesiant tenantiaid tai cymdeithasol.



Michelle Morris

Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

Chwefror 2026

Atodiad

Roedd enghreifftiau pellach o'n hachosion yn ymwneud â gwaith atgyweirio a chynnal a chadw neu leithder a llwydni.

Oedi wrth fynd i'r afael ag atgyweiriadau a pheryglon brys

Yn achosion [202408308](#) a [202408991](#), [202505478](#) a [202503132](#), profodd tenantiaid ofid sylweddol oherwydd oedi wrth fynd i'r afael ag atgyweiriadau brys.

Yn **achos 202408308**, methodd Cymdeithas Tai ag ymateb am sawl mis i bryderon niferus ynghylch atgyweiriadau a oedd heb eu gwneud i eiddo tenant a oedd yn 90 oed, gydag archwiliadau ond yn cael eu gwneud ar ôl i AS ymwneud â'r achos.

Yn **achos 202408991**, dioddefodd Miss A ddiffyg atgyweirio helaeth ers dechrau 2023, gan gynnwys llwydni du, gollyngiadau dŵr yn y to, ffenestri a oedd yn gwrthod cau, diffyg inswleiddio, asbestos a oedd angen ei ddisodli, a cholli gwres a dŵr poeth dros y Nadolig, ynghyd â thwll mawr yn y nenfwd. Lle'r oedd gwaith wedi'i wneud, roedd o ansawdd gwael ac yn achosi difrod pellach i'r eiddo a'r meddiannau.

Yn **achos 202505478**, cwynodd Miss A am gyllyll, hoelion, pwysau a gwastraff wedi'u claddu yn y glaswellt yn ei gardd. Dywedodd fod hynny wedi achosi pla o lygod mawr ac wedi creu amgylchedd anniogel i'w phlant ifanc. Ni aeth y Gymdeithas i'r afael â'r mater yn briodol. O ganlyniad, ni allai'r teulu ddefnyddio'r ardd yn ddiogel.

Yn **achos 202503132**, cwynodd Ms A fod atgyweiriadau a gwelliannau y cytunwyd arnynt i'w gardd, i ffens terfyn a'i thramwyfa wedi'u gohirio. Er bod rhywfaint o waith wedi'i wneud, achosodd oedi a chwblhad annigonol straen, pryder a rhwystredigaeth.

Mae'r achosion hyn yn tynnu sylw at bwysigrwydd dilyn polisiâu atgyweirio a chwynion i archwilio eiddo'n brydlon, mynd i'r afael â pheryglon yn effeithiol, a sicrhau bod pryderon ailadroddus yn cael eu cofnodi a'u holrhain fel cwynion ffurfiol. Mae cyfathrebu clir a gweithredu'n amserol yn hanfodol i atal niwed a lleihau gofid i denantiaid.

Diffyg, neu dim digon, o ddiweddariadau ac eglurder ar y cynllun ar gyfer gwaith angenrheidiol

Yn achosion [202503782](#), [202503266](#), [202409225](#) a [202500849](#), profodd tenantiaid rwystredigaeth a gofid oherwydd cyfathrebu aneglur a diffyg diweddariadau ar atgyweiriadau a gynlluniwyd.

Yn **achos 202503782**, cwynodd Ms A fod Trivallis wedi methu â datrys atgyweiriadau a oedd heb eu datrys i ystafell ymolchi, gan gynnwys toiled a oedd yn gollwng dŵr, lleithder a llwydni, a chawod nad oedd yn gweithio. Er i'r Gymdeithas gadarnhau'r gŵyn ym mis Gorffennaf 2024, roedd atgyweiriadau'n parhau i fod yn anghyflawn ac ni ddarparwyd amserlen glir ar gyfer cynllun amnewidiad yn yr ystafell ymolchi. Achosodd y diffyg diweddariadau ystyrllon anghyfleustra a rhwystredigaeth barhaus.

Yn achos **202503266**, cododd Mrs A bryderon ynghylch oedi wrth wneud atgyweiriadau. Roeddem yn pryderu bod atgyweiriadau yn dal i fod heb eu gwneud ac nad oedd Mrs A wedi derbyn ymateb ysgrifenedig ffurfiol. Cytunodd y Gymdeithas i ymddiheuro'n ysgrifenedig, cadarnhau'r camau y bydd yn eu cymryd i gwblhau'r gwaith angenrheidiol, ac ymateb yn unol â'i gweithdrefn gwyno.

Yn achos **202409225**, cwynodd cynrychiolydd tenant fod Adra wedi methu â thrwsio gollyngiad dŵr ers mis Mai 2023, gan arwain at leithder a llwydni. Er bod Adra wedi ymdrechu i fynd i'r afael â'r mater yn allanol, ni roddodd y wybodaeth ddiweddaraf i'r tenant nac ymateb i adroddiadau am leithder a llwydni y tu mewn i'r eiddo.

Yn achos **202500849**, cwynodd Mr A fod Adra wedi methu â chwblhau atgyweiriadau yr oedd wedi adrodd amdanynt dros fisoedd a blynnyddoedd. Dywedodd ei fod wedi cael trafferth cael y wybodaeth ddiweddaraf ac nad oedd wedi derbyn ymateb ysgrifenedig i'w ail gŵyn. Dywedodd Mr A nad oedd rhai atgyweiriadau wedi cael eu cydnabod, a'i fod wedi colli ffydd y byddai'r holl atgyweiriadau'n cael eu cwblhau mewn modd amserol. Dywedodd Mr A fod yr oediadau yn effeithio ar ei iechyd corfforol a meddyliol.

Mae'r achosion hyn yn tynnu sylw at bwysigrwydd cyfathrebu yn glir ac yn rheolaidd, ynghyd â darparu ymatebion ffurfiol i gwynion, yn enwedig lle mae atgyweiriadau'n gymhleth neu'n para'n hir. Gall rhoi gwybod i denantiaid am

waith a gynlluniwyd ac amserlenni disgwyledig atal rhwystredigaeth a lleihau'r tebygolrwydd y bydd pethau'n gwaethygu.

Methiannau yn y broses gwyno, gan gynnwys methu â chofnodi cwynion yn gywir neu fethu â chyhoeddi ymateb i gŵyn

Yn achosion [202502986](#), [202501517](#) a [202501762](#), profodd tenantiaid ansicrwydd a rhwystredigaeth oherwydd ni chofnodwyd nac ymatebwyd i'w cwynion yn unol â gweithdrefn gwyno'r sefydliad.

Yn achos **202502986**, cwynodd Mr X fod Adra wedi methu ag atgyweirio drafft a oedd yn dod o'i ffenestri. Cwynodd ym mis Ionawr 2025 ond ni chafodd ymateb i'w gŵyn.

Yn achos **202501517**, cwynodd Mrs X fod Cymdeithas Tai Cymunedol Caerdydd wedi difrodi ei wal. Cyhoeddodd y Gymdeithas ymateb, ond nid oedd yn ymateb ffurfiol i gŵyn, ac ni chafodd ei gyhoeddi yn unol â'i gweithdrefn gwyno.

Yn achos **202501762**, cwynodd Mr X am y cyflenwad gwresogi cymunedol a thaliadau ychwanegol yn dilyn gwaith gan Gyngor Sir Dinbych. Darparodd y Cyngor ymateb Rhyddid Gwybodaeth ond ni ddarparodd ymateb ffurfiol i'r gŵyn.

Mae'r achosion hyn yn dangos pwysigrwydd sicrhau bod cwynion yn cael eu cofnodi a'u hateb yn briodol, i roi'r hyder i denantiaid bod eu pryderon yn cael eu trin yn gywir.